- ***Ein Gweledigaeth yw Cymru oed-gyfeillgar sy’n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio’n dda.***
- ***Rydym eisiau creu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at heneiddio.***
- ***Cymru lle y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a’u llesiant eu hunain a theimlo’n hyderus y bydd cymorth ar gael, a hynny’n gyfleus, os bydd ei angen.***
- ***Cymru lle nad yw oedraniaeth yn cyfyngu ar botensial nac yn effeithio ar ansawdd gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu derbyn.***
- ***Yn y pen draw, rydym eisiau bod yn genedl sy’n dathlu oedran ac, yn unol ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, a bod yn genedl sy’n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunanfoddhad ac urddas pobl hŷn bob amser.***

| **Creu Cymru o blaid pobl hŷn**<br>**Byddwn yn:**<br>Cefnogi awdurdodau lleol i weithio gyda phartneriaid i greu cymunedau sydd o blaid pobl hŷn | | | |
|---|---|---|---|
| **Sut y byddwn yn cyflawni hyn** | **Sector/sefydliad cyflawni** | **Amserlenni** | **Diweddariad ar gynnydd** |
| Cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu neu wella mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn, a gweithio tuag at aelodaeth o Rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cynghorau cymuned a thref, grwpiau a fforymau pobl hŷn, y trydydd sector | Parhaus gydol tymor y llywodraeth | Roedd £1.1 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu rhwng awdurdodau lleol yn 2022-23 a’i gytuno ar gyfer 2023-24.<br>Llywodraeth Cymru i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr eiriolaeth pobl hŷn awdurdodau lleol i rannu arferion da a mesur cynnydd.<br>Ymunodd Caerdydd â rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd yn 2022.<br>Mae 21 awdurdod lleol wedi penodi cynghorydd lleol i weithredu fel hyrwyddwr o blaid pobl hŷn. |

| **Hyrwyddo dull sy’n seiliedig ar hawliau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Byddwn yn:**<br>• Codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn ymhlith pobl hŷn a gweithwyr proffesiynol<br>• Gweithio ar draws y llywodraeth a sectorau i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb a brofir gan bobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy’n profi anghydraddoldebau sy’n cydblethu. | | | |
| **Sut y byddwn yn cyflawni hyn** | **Partner cyflawni** | **Amserlenni** | **Diweddariad ar gynnydd** |
| Gweithio mewn partneriaeth ag Age Cymru ac eraill i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn -<br><br>Parhau i nodi ffyrdd o ymwreiddio hawliau pobl hŷn ar draws datblygiad a darpariaeth gwasanaethau yn y sector cyhoeddus.<br><br>Ariennir Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gan Lywodraeth Cymru ac mae’n llais ac yn hyrwyddwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn. Mae rhoi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn flaenoriaeth allweddol i’r Comisiynydd. | Llywodraeth Cymru, y trydydd sector a’r sector cyhoeddus, grwpiau pobl hŷn ac unigolion, Gofal Cymdeithasol Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Parhaus gydol tymor y llywodraeth | Darparwyd cyllid o £100,000 i Age Cymru yn 2021-22 i gynnal ymgyrch hawliau pobl hŷn a barhaodd yn 2022-23. Lledaenu negeseuon ymgyrchu ar fagiau fferylliaeth, yn y wasg brint ac ar bosteri sy'n cael eu harddangos mewn ysbytai. Pecyn cymorth a fideo wedi animeiddio wedi’u lansio yn 2022.<br><br>Mae'r Pecyn Cymorth Eiriolaeth Hawliau Dynol a deunyddiau print wedi'u dosbarthu mewn digwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru a fynychwyd gan 400 a mwy o bobl. Cynhaliwyd digwyddiadau mewn lleoliadau amrywiol o Fôn i Fynwy, o archfarchnadoedd i ganolfannau celfyddydol. Hefyd, fe wnaeth Age Cymru roi cyflwyniad i grwpiau fel Sefydliad y Merched. Ym mis Awst aeth staff Age Cymru, y Dirprwy Weinidog, a chyfranogwyr y prosiect i'r Eisteddfod Genedlaethol i siarad am hawliau dynol. Ym mis Hydref, cafodd pecynnau cymorth eu hanfon i Lyfrgelloedd Cymru i gyd-fynd â'r prosiect Heneiddio'n Dda gyda Llyfrgelloedd Cymru.<br><br>Yn fwy diweddar, mae Age Cymru wedi recriwtio saith o bobl hŷn i'w hyfforddi fel llysgenhadon gan yr Athro John Williams. Y nod yw bod Llysgenhadon yn cynnal cyfarfodydd yn eu cymunedau i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol a grymuso pobl hŷn i deimlo'n hyderus wrth drafod hawliau dynol. Mae gwirfoddolwyr wedi eu recriwtio o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol, cymunedau LHDT, a phobl ag anableddau.<br><br>Sicrhau bod hawliau'n gweithio i bobl hŷn - canllawiau i aelodau'r cyhoedd a chyrff cyhoeddus a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2022 gyda fideo a grëwyd i egluro'r canllawiau ym mis Ebrill 2022. |
| Cyhoeddi Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol gyda nodau, amserlenni camau gweithredu a chanlyniadau gweladwy. Mae’r cynllun wedi’i seilio ar werthoedd gwrth-hiliaeth ac mae’n ymgorffori polisi dim goddefgarwch tuag at hiliaeth o bob math.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu cenedl wrth-hiliol erbyn 2030. | Llywodraeth Cymru a phob sector gan gynnwys iechyd, tai a’r economi. | Parhaus | Cafodd cynllun gweithredu 'Cymru Wrth-hiliol' ei lansio ym mis Mehefin 2022. Mae'r cynllun yn nodi nodau'r Llywodraeth erbyn 2030. Mae'r Strwythur Llywodraethu ar waith gyda chyfarfod cyntaf y Grŵp Cymorth Mewnol a Her wedi'i gynnal ddydd Iau 14 Gorffennaf. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob mis bellach.<br><br>Rydym wedi cwblhau'r broses recriwtio i benodi chwe arbenigwr allanol ar wrth-hiliaeth ac un ar ddeg o gynrychiolwyr amrywiaeth gyda phrofiad byw i ymuno â'r Grŵp Atebolrwydd Allanol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Atebolrwydd Allanol ar 27 Ionawr 2023. Yr Athro Emmanuel Ogbonna ac Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru, yw'r Cyd-gadeiryddion.<br><br>Ym mis Gorffennaf 2022, anfonodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol lythyr at arweinwyr sector cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan ofyn iddynt weithio gyda ni i sicrhau Cymru Wrth-hiliol. |
| Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol presennol a brofir gan gymunedau LHDTC+, er mwyn herio gwahaniaethu a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu'n ddilys, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain. | Llywodraeth Cymru a phob sector gan gynnwys iechyd, tai a’r economi. | Parhaus | Cyhoeddwyd y Cynllun ym mis Chwefror 2023<br><br>Bydd y cynllun yn ceisio mynd i'r afael yn benodol ag anghydraddoldebau iechyd a brofir gan bobl hŷn LHDTC+ trwy wella cynwysoldeb darpariaeth iechyd a gofal a sicrhau bod hyfforddiant proffesiynol priodol yn ei le. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymgorfforí egwyddorion ffeministaidd ar draws polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru | Pob sector | Hirdymor | Mae Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd wedi'i sefydlu. Caiff ei gyd-gadeirio gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ac mae'n dod â rhanddeiliaid sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb rhywedd ledled Cymru at ei gilydd. Bu'r Fforwm yn allweddol wrth nodi camau allweddol a meysydd blaenoriaeth ar gyfer cam nesaf Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru.<br><br>Bydd y gwaith rydyn ni'n ei wneud ar gyllidebu rhywedd a thrwy greu ein Hunedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn sbarduno newidiadau pwysig yn ein ffordd o weithio.<br><br>Mae cyllidebu rhywedd yn arf allweddol i sicrhau bod ein prosesau cyllideb a threthi'n ystyried anghenion pob rhyw yn llawn ac yn mynd i'r afael â gwendidau economaidd menywod. Mae ymwreiddio'r dull hwn yn golygu mwy nag ystyried newidiadau i brosesau, mae'n gofyn am newid diwylliannol yn y ffordd mae pob maes o Lywodraeth Cymru'n ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau. Rydym yn parhau i ddysgu o'n tri pheilot cyllidebu rhywedd presennol (Cyfrifon Dysgu Personol, Gwarant i Bobl Ifanc ac E-Symud), gan weithio ar y cyd ar draws meysydd i rannu'r dysgu parhaus a llywio sut y gellir ymwreiddio ac ehangu'r gwaith hwn ymhellach.<br><br>Sefydlwyd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anableddau ym mis Ionawr 2022 i wella argaeledd, ansawdd, a hygyrchedd tystiolaeth am unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a cysylltiedig. Bydd eu gwaith yn ein helpu i ddeall lefel yr anghydraddoldebau ledled Cymru'n llawn. Bydd yn ein helpu i ddatblygu polisïau mwy gwybodus ac asesu a mesur eu heffaith. |
| Cyflawni Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol | Pob sector | Hirdymor | Arweinir y gwaith parhaus o fonitro a gwerthuso'r fframwaith gan y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |

## Nod 1: Gwella llesiant

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 1: Gwella cymorth i ofalwyr di-dâl**<br>**Byddwn yn:** Cyhoeddi cynllun i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl | | | |
| Gweithredu'r cynllun cyflawni i gefnogi'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. | Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â phob sector | Cynllun wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 – cyflawni dros dymor y llywodraeth. | Mae swyddogion yn darparu chwe adroddiad misol i'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl a'r [chyhoeddi'r diweddariad blynyddol cyntaf ym mis Mawrth 2023](). <br>£9 miliwn dros dair blynedd wedi'i ddyfarnu i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i sefydlu a chyflwyno cynllun seibiant byr newydd i ofalwyr di-dâl. Nod y cynllun yw cynyddu cyfleoedd i ofalwyr gael seibiant a mwynhau bywyd law yn llaw â'u rôl ofalu.<br>Buddsoddi £4.5 miliwn dros dair blynedd i barhau â'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr gan gynnig grantiau o hyd at £300 i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ag effaith yr argyfwng costau byw.<br>Taliad o £500 i'r holl ofalwyr di-dâl sy'n derbyn y Lwfans Gofalwyr wedi'i ddyrannu yn 2022. |
| Hyrwyddo arfer da drwy weithredu ar yr hyn a ddysgwyd o brosiectau Age Cymru, Gofalwyr Cymru a ariannwyd gan Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. | Llywodraeth Cymru, Age Cymru, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – Hirdymor – diwedd 2024 | Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy wedi'i ymestyn ddwy flynedd tan fis Mawrth 2025.<br>Cyllid i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru er mwyn ymgysylltu â gofalwyr di-dâl. Mae'r gwaith i gynnwys canolbwyntio ar ofalwyr benywaidd hŷn. |

<table>
<tr><th>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</th><th>Partner cyflawni</th><th>Cyfnod</th><th>Diweddariad ar gynnydd</th></tr>
<tr><td>Hybu ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr drwy ymgyrchu a negeseuon</td><td>Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol a sefydliadau’r trydydd sector</td><td>Tymor byr – cyflwynwyd ymgyrch gofalwyr yn 2021<br><br>Parhaus drwy’r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a’r Cynllun Cyflawni</td><td>Cynnal Ymgyrch Hawliau Gofalwyr yn 2021.<br><br>Wedi cyd-gynhyrchu Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Mae’n nodi hawliau gofalwyr dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a deddfwriaeth Hawliau Dynol:<br><br>Siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl [HTML] | LLYW. CYMRU</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Blaenoriaeth 2: Gwella mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</u><br><br>Byddwn yn:<br>• Parhau i gefnogi pobl sy’n agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain, mewn ysbytai, mewn cartrefi gofal, mewn llety â chymorth neu leoliadau eraill, gan ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ac arloesi lle bo hynny’n briodol.<br>• Gwella mynediad cynnar i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHPs)[1]<br>• Gwella mynediad i wasanaethau meddygon teulu<br>• Ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg a defnyddio eu Cymraeg lle bynnag maen nhw ar eu taith Gymraeg<br>• Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol<br>• Adolygu’r cyllid sydd ar gael i ofal cymdeithasol</td></tr>
<tr><td>Darparu Cronfa Buddsoddi Refeniw pum mlynedd newydd i ddatblygu gwaith a dysgu’r Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid.</td><td>Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y</td><td>CWBLHAWYD – bydd y gronfa newydd ar waith o fis</td><td>Daeth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (GIR) yn weithredol ym mis Ebrill 22. Mae canllawiau ar gael yn: Cronfa</td></tr>
</table>

[*1] Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, hylenyddion deintyddol, deietegwyr, therapyddion corfforol, therapyddion lleferydd ac iaith a pharafeddygon.

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | sector cyhoeddus a’r trydydd sector | Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027 | [Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol \| LLYW. CYMRU]<br><br>Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu hariannu i gefnogi datblygiad y chwe Model Cenedlaethol o Ofal integredig (MoC) yn arbennig o berthnasol i gymdeithas sy'n heneiddio, yn benodol y berthynas rhwng y ddau MoC gofal cymunedol (Atal a chydlynu cymunedol a gofal cymhleth yn nes at y cartref a MoC gartref o’r ysbyty)<br><br>**Mae enghreifftiau a ariennir gan y GIR yn cynnwys:**<br><br>• **MoC Gartref o'r Ysbyty**<br>- D2RA, Home First, rôl yr Asesydd Dibynadwy a sgyrsiau yr Hyn sy'n Bwysig<br>- Gwasanaethau Cymorth Rhyddhau Gofalwyr<br>- Cymorth yn y gymuned i osgoi ailddychwelyd i'r ysbyty, a ddarperir gan y trydydd sector.<br>- Cadw'n Iach Gartref<br>- Addasiadau carlam<br>Gofal canolradd: Cyfleusterau camu i fyny / camu i lawr<br>• **MoC Gofal Cymunedol:**<br>- Presgripsiynu cymdeithasol<br>- Datblygu Hybiau Cymunedol<br>- Cymorth Cymunedol Dementia<br>- Gwyliau byr i ofalwyr di-dâl<br>- Timau Iechyd a Llesiant Cymunedol<br>- Cydlynu a Chysylltiadau Ardal Leol<br>- Gwasanaethau cymorth yn y cartref<br>- Ailalluogi |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Darparu mynediad uniongyrchol ac amserol i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs) mewn cymunedau a chanolfannau iechyd a lles integredig trwy gyflawni'r Fframwaith Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cymru | Byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector | Hirdymor a pharhaus | Mae Tîm Rhaglen Fframwaith AHP ar waith bellach ac yn gweithio ar sail rhaglen drawsnewid, gan gynnwys mynediad cynharach a mwy uniongyrchol i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae Cydweithfeydd Proffesiynol AHP wedi'u sefydlu ym mhob rhanbarth iechyd bellach i roi cyngor i Grwpiau Cynllunio Traws Glwstwr ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwasanaethau proffesiynau perthynol i iechyd ar lawr gwlad.<br><br>Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gynyddu mynediad at weithwyr proffesiynol ehangach mewn Gofal Sylfaenol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Rydym wedi comisiynu ymchwil i gael barn y cyhoedd yng Nghymru ynglŷn â chael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys proffesiynau perthynol i iechyd, a deall beth yw ystyr 'mynediad da' i bobl yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau'n helpu i lywio datblygiad polisi, cyflawni ac, yn arbennig, penderfyniadau ynghylch gwella mynediad.<br><br>Ar 24 Ionawr 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £5m i gynyddu nifer y gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol i iechyd a chynyddu mynediad at ofal yn y gymuned er mwyn helpu pobl i barhau i fod yn egnïol ac yn annibynnol. |
| Recriwtio mwy o feddygon teulu drwy lansio ymgyrch *Hyfforddi Gweithio Byw yng Nghymru* | Llywodraeth Cymru/GIG Cymru | Tymor canolig – oes yr ymgyrch | Mae'r rhaglen hyfforddi arbenigol meddygon teulu wedi cael ei hehangu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf ac ers lansio'r ymgyrch Hyfforddi Gweithio Byw, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y gyfradd llenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu. Mae'r targed recriwtio presennol o 160 o feddygon teulu newydd bob blwyddyn yn cael ei gyflawni'n gyson. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Mae ymgyrch farchnata Hyfforddi Gweithio Byw wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n derbyn lleoedd hyfforddi fel meddygon teulu dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd 175 o hyfforddeion eu recriwtio yn 2022.<br><br>Rydym wedi cynnig cymhellion ariannol hefyd i ddenu meddygon teulu dan hyfforddiant i gynlluniau hyfforddi arbenigol yng ngogledd a gorllewin Cymru, ardaloedd sydd wedi bod yn anodd recriwtio iddynt yn y gorffennol.<br><br>Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cynyddu lleoedd hyfforddi ar gyfer meddygon teulu ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data presennol. |
| Cyflawni'r [Model Gofal Sylfaenol i Gymru ] – mae'r blaenoriaethau gweithredu'n cynnwys atal, gwasanaeth 24/7, y gweithlu aml-broffesiynol, data a thechnoleg ddigidol, cyfathrebu ac ymgysylltu, gweithio clwstwr. | Llywodraeth Cymru, GIG Cymru | Hirdymor | Disgwylir i sefydliadau fonitro a chyflawni eu cynlluniau ar gyfer modelau gofal arloesol ac integredig.<br><br>Dylai sefydliadau ddangos gyda gweithredoedd penodol a mesuradwy yn eu cynlluniau tymor canolig integredig (IMTP) sut maen nhw'n gweithio gyda phartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i greu gwasanaethau di-dor. Yn benodol, dylid canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor – gan gynnwys dementia, pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr). |
| Gweithredu newidiadau i gontract meddygon teulu i wella mynediad i apwyntiadau – cyhoeddwyd £12 miliwn o fuddsoddiad ym mis Rhagfyr 2021. | Llywodraeth Cymru, GIG Cymru | Hirdymor | Cyflwynwyd cam cyntaf Safonau Mynediad y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ym mis Ebrill 2019 gan ganolbwyntio ar systemau a phrosesau i'w gwneud hi'n haws i gleifion gysylltu â'u meddygfa. Ddiwedd Mawrth 2022, roedd 89% o feddygfeydd teulu ledled Cymru wedi cyflawni'r holl |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Diwygio’r contractau gofal sylfaenol cenedlaethol. | | | safonau, o'i gymharu â 76% ym Mawrth 2021. Bydd y safonau cychwynnol hyn yn orfodol i bawb drwy'r contract GMS o 1 Ebrill 2023 ymlaen.<br><br>Cyflwynwyd ail gam y safonau ym mis Ebrill 2022, gyda'r nod o sicrhau bod practisau’n cymryd agwedd flaengar, wedi'i chynllunio, at reoli anghenion cleifion, gan fynd i'r afael â'r dagfa 8am sydd wedi bod yn broblem barhaus. Mae'r Ymrwymiad Mynediad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i feddygfeydd fabwysiadu model mynediad cyfunol, gan gynnig cymysgedd o apwyntiadau o bell, wyneb yn wyneb, brys, ar y dydd a rhai wedi'u trefnu ymlaen llaw. Mae adborth cleifion yn cefnogi'r model cyfunol hwn, gyda llawer o gleifion yn gwerthfawrogi ymgynghoriad ffôn er mwyn osgoi'r angen i dreulio amser yn teithio i'r feddygfa, neu'r gallu i ofyn am gyngor nad yw'n fater o frys trwy feddalwedd ddigidol, tra mae'n well gan eraill ddefnyddio dull mwy traddodiadol.<br><br>Nod yr Ymrwymiad Mynediad yw sicrhau nad oes angen i gleifion sydd ag anghenion llai brys neu arferol gysylltu â'u meddygfa sawl gwaith ond yn hytrach gallant drefnu apwyntiad ymlaen llaw ar gyfer dyddiad ac amser priodol, a allai fod yn y dyfodol.<br><br>Mae gan feddygfeydd tan 31 Mawrth 2023 i ddangos eu bod yn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Erbyn y dyddiad hwn, bydd angen iddynt ddangos i fyrddau iechyd y gwelliannau a wnaethpwyd i adlewyrchu anghenion mynediad eu cleifion. |
| Hyrwyddo cynnig gweithredol a chyflawni *Mwy na Geiriau* – fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau | Byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, y trydydd sector | Hirdymor | Lansiwyd cynllun newydd Mwy na Geiriau ym mis Awst 2022. Fel rhan o'r broses o weithredu'r cynllun cafodd cwrs newydd gorfodol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ei lansio ar gyfer staff |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. | | | y GIG sy'n esbonio pwysigrwydd yr iaith wrth ddarparu gwasanaethau.<br><br>Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd camau gweithredu Mwy na Geiriau'n cael ei gyhoeddi yn ystod Haf 2023. Mae Bwrdd Cynghori wrthi'n cael ei sefydlu i fonitro a chraffu ar y cynnydd. |
| Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gofal a chymorth dementia yng Nghymru. | Llywodraeth Cymru | Blaenoriaethau gwaith yn canolbwyntio ar 2022 ar hyn o bryd. | Gohiriwyd gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia oherwydd y pandemig ond mae ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth a ffocws ar ymchwil sylfaenol. Bydd hyn yn cynnwys dau gam. Mae Cam 1, sy'n cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol, a staff rheng flaen eraill yn ogystal â phobl sy'n byw gyda dementia, teuluoedd a gofalwyr, drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws yn parhau gydag adroddiad interim i'w gyhoeddi yr haf hwn. Bydd Cam 2 yn datblygu'r ymchwil hon gyda holiaduron dilynol, cyfweliadau ansoddol trylwyr a grwpiau trafod bach gyda'r nod o gyhoeddi adroddiadau llawn ar gam 1 a 2 erbyn mis Mai 2024.<br><br>Bydd y gwerthusiad yn llywio ein trefniadau olynol a bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Gorchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia. |
| Ymwreiddio presgripsiynu cymdeithasol fel rhan o wasanaethau hunanreoli ac atal, sy'n cyd-fynd â gwasanaethau sylfaenol a chymunedol. sicrhau ansawdd, llywodraethu a goruchwylio ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol drwy | Byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, trydydd sector | Hirdymor | Daeth y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyfnod ymgynghori presgripsiynu cymdeithasol i ben yn Hydref 2022. Mae dadansoddiad adborth yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a'i ddefnyddio er mwyn helpu i lywio datblygiad y strwythur a'r rhaglen waith a fydd yn cael ei gweithredu i ddatblygu'r fframwaith. Bydd canllawiau monitro a gwerthuso'n rhan o'r fframwaith. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| wasanaethau proffesiynol perthynol i iechyd. | | | Mae llyfrgelloedd yn gweithio gyda sawl sefydliad i gyflwyno ymgyrchoedd iechyd a lles o Fôn i Fynwy. Rydym yn darparu cyllid ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol drwy'r ymgyrch Darllen yn Dda. |
| Mae Grŵp Arbenigol, a grëwyd fel rhan o Gytundeb Cydweithredu gyda Phlaid Cymru wedi'i ffurfio i ddarparu argymhellion ar y camau nesaf ymarferol y gellir eu cymryd tuag at greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol lle mae gofal yn rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. | Llywodraeth Cymru ac Aelodau Dynodedig Plaid Cymru yn gweithio gyda Grŵp Arbenigol | Tymor-byr – <br><br>Mae'r nod sylfaenol yn mynd â'r Grŵp hyd at Ebrill 2022 | Fe wnaeth y Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru ddisgrifio uchelgais a rennir ar gyfer creu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. Roedd yn ymrwymo i ofal cymdeithasol barhau i fod yn gyfrifoldeb i lywodraeth leol a pharhau fel gwasanaeth cyhoeddus, wedi'i ymwreiddio yn yr ymrwymiad a rennir i gydraddoldeb a hawliau dynol a lle mae llais defnyddwyr y gwasanaeth i'w glywed yn glir. <br><br>Sefydlwyd Grŵp Arbenigol gan Weinidogion ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru. Bu'n cyfarfod rhwng mis Chwefror a mis Medi 2022. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys unigolion â chefndir mewn gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, cyllid ac economeg, y mudiad undebau llafur, y byd academaidd a rhai â phrofiad o ofalu a'r rhyngwyneb rhwng gofal cymdeithasol a'r GIG. <br><br>Rôl y Grŵp Arbenigol oedd paratoi argymhellion ar gamau ymarferol y gellir eu cymryd tuag at yr uchelgais gyffredin hon. Roedd hyn gyda'r bwriad o gytuno ar gynllun gweithredu erbyn diwedd 2023. <br><br>Mae adroddiad y Grŵp Arbenigol wedi'i gyhoeddi bellach ac ar gael yma: <br><br>Mae'r Grŵp Arbenigol wedi llunio adroddiad trylwyr a manwl gydag argymhellion pellgyrhaeddol am sut y gellid datblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu hystyried a'u trafod yn drylwyr, yn enwedig yng |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | nghyd-destun y sefyllfa ariannol anodd iawn sydd wedi codi ers i'r gwaith hwn ddechrau.<br>Ar hyn o bryd mae swyddogion yn cwblhau'r gwaith o ddatblygu cynllun Gweithredu Drafft sy'n cynnwys dull tri cham.<br>Bydd datganiad pellach maes o law wedi i Weinidogion ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru gael cyfle i ystyried y cynllun gweithredu hwn yn fanwl a phenderfynu ar y camau nesaf priodol. |
| Ystyried ffordd gynaliadwy ymlaen ar gyfer codi tâl am ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. | Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol | Hirdymor – dros dymor presennol y llywodraeth | Ystyrir ffordd gynaliadwy ymlaen ar gyfer codi tâl am ofal cymdeithasol i oedolion Cymru yng nghyd-destun y camau nesaf sy'n deillio o adroddiad y Grŵp Arbenigol. |
| Parhau i hyrwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog: Blaenoriaeth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr<br>Monitro nifer y cyn-filwyr 50+ oed sydd wedi'u cofnodi fel 'cyn-filwyr' yn unol â'r Cyfamod. | Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r GIG a'r trydydd sector | Hirdymor (2021-2026). Dros dymor presennol y Llywodraeth | Parhaus<br>Yn 2021, dywedodd tua 115,000 o bobl yng Nghymru eu bod wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol. Mae hyn tua 4.5% o drigolion 16 oed a throsodd. |
| Cyhoeddi fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth. | Llywodraeth Cymru | Hirdymor<br>(Grant o 2021 – 2024) | Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth yng Nghymru. Rydym yn ymwreiddio safonau Profedigaeth Cenedlaethol yn Fframwaith Cyflawni'r GIG o fis Ebrill 2023, gan ein galluogi i ddwyn byrddau iechyd i gyfrif a mesur effaith y Grant Cymorth Profedigaeth. Mae perthynas waith |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | dda wedi'u sefydlu gyda Grŵp Teuluoedd dros Gyfiawnder Covid 19 Cymru ac rydym yn dysgu o brofiadau eu haelodau er mwyn helpu i wella'r ddarpariaeth profedigaeth ledled Cymru. |
| **Blaenoriaeth 3: Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl**<br>**Byddwn yn:**<br>Cyflawni a gwerthuso Law yn Llaw at Iechyd Meddwl er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun olynol | | | |
| Mae ein strategaeth bresennol yn dod i ben yn 2022. Yn ddiweddar rydym wedi comisiynu Opinion Research Services (ORS) i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r strategaeth i fesur pa gynnydd sydd wedi'i wneud a beth sydd angen ei roi ar waith ar gyfer y cynlluniau olynol. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r dull pob oedran. | Pob sector | Hirdymor (2021-2026) – dros dymor presennol y llywodraeth | Mae'r gwerthusiad annibynnol wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yng ngwanwyn 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn hysbysu'r camau nesaf. |

## NOD 2: Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| **Tai**<br>**Byddwn yn:**<br>• Cefnogi twf modelau tai newydd sy'n helpu pobl i heneiddio'n dda<br>• Cydlynu rhaglenni cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol | | | |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| • Sicrhau bod tai yng Nghymru o'r safon dderbyniol | | | |
| Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol 5 mlynedd newydd yn adeiladu ar lwyddiannau'r Gronfa Gofal Integredig drwy barhau i alluogi gweithio integredig a chydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sectorau annibynnol. | Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, trydydd sector, sector preifat. | Hirdymor - bydd y gronfa newydd yn para rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2027 | Lansiwyd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn 2022 ac mae'n bwriadu buddsoddi mewn lleoliadau gofal canolradd fel fflatiau gofal ychwanegol a llety ail-alluogi 'camu i lawr' er mwyn helpu pobl hŷn i adennill annibyniaeth ac atal mynediad i leoliad gofal preswyl.<br><br>Mae'r Gronfa Tai â Gofal ar waith, gyda chyllideb o £60.5m ar gael i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2022-23, a'r un fath yn 2023-24. Bydd adroddiad blynyddol ar gael maes o law.<br><br>**Byw'n Annibynnol**<br><br>**Hwyluso:** cynyddodd y grant cyfalaf hwn i awdurdodau lleol o £5m yn 2021-22 i £6m yn 2022-23. Nod y cyllid ychwanegol yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gallu darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer pob addasiad bach a chanolig heb ddefnyddio prawf modd. Ym mis Ebrill 2023, bydd 21 o 22 awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r polisi hwn. Bydd gwybodaeth am yr 1 awdurdod sy'n weddill yn dilyn.<br><br>**Grant Addasiadau Ffisegol:** mae cymdeithasau tai traddodiadol yn derbyn £10.5m o arian cyfalaf i ddarparu addasiadau i'w tenantiaid.<br><br>Cyfanswm grantiau cyfalaf yn 2022-23 oedd £19.5m. Cafwyd hyd i £1.6m o arian cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ychwanegu at gyllideb y Grant Addasiadau Ffisegol, a dosbarthodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol £3m yn ychwanegol o'r Gronfa Tai â Gofal i ychwanegu at Grant Cyfleusterau i'r Anabl awdurdodau lleol. Felly, bydd cyfanswm y gwariant cyfalaf ar addasiadau yn 2022-23 yn cyrraedd tua £24m. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu talu |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | cost yr addasiadau drutaf hefyd sydd dros derfyn uchaf statudol £36,000 y Grant Cyfleusterau i'r Anabl o'u cyllidebau Cronfa Tai â Gofal. Mae'n rhy gynnar i ddweud faint o gyllid ychwanegol sydd wedi'i ddefnyddio at y diben hwn yn 2022-23.<br><br>Mae tystiolaeth bod pob darparwr yn profi mwy o alw am addasiadau. Priodolir hyn yn bennaf i effaith pandemig Covid-19 ar anghenion iechyd ac adferiad pobl hŷn a phobl anabl, ac effaith Covid hir ar unigolion.<br><br>**Gofal a Thrwsio:** £4.8m o grant refeniw, cynnydd o £0.5m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd er mwyn galluogi Asiantaethau Gofal a Thrwsio i ddarparu gwasanaethau ychwanegol mewn perthynas ag achosion cymhleth o ryddhau cleifion o ysbytai er enghraifft lle mae angen gwaith cynnal a chadw hanfodol ar gartref y cleient cyn y gellir gwneud addasiadau, neu lle mae angen cymorth ar y cleient gyda phroblemau casglu a chronni pethau sy'n atal gweithwyr rhag gosod addasiadau'n ddiogel. Cynyddodd grant cyfalaf Gofal a Thrwsio ar gyfer Addasiadau Brys hefyd, o £1.64m yn 2021-22 i £3m yn 2022-23.<br><br>Yn 2021/22 fe wnaeth Gofal a Thrwsio helpu 56,897 o bobl hŷn i barhau'n annibynnol drwy gwblhau dros 58,000 o addasiadau cartref a gwaith atgyweirio tai, gwerth £14.6 miliwn. Hefyd, fe wnaethon nhw helpu dros 2,100 o bobl i gynyddu eu hincwm blynyddol £3,865 ar gyfartaledd.<br><br>**Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>Mae Gofal a Thrwsio wedi darparu gwasanaeth **Adre o'r Ysbyty** ers 2019. Mae ar waith mewn 17 ysbyty ar draws 5 |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd Iechyd erbyn hyn. Mae'r cynllun yn helpu cleifion hŷn i gael eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty yn gynt trwy wella'r cartrefi maen nhw'n dychwelyd iddynt, er enghraifft drwy ddarparu addasiadau cyflym, atgyweiriadau, gwaith effeithlonrwydd ynni yn y cartref a sicrhau bod cleifion hŷn yn derbyn pob budd-dal sy'n ddyledus iddyn nhw. Ar ôl cael eu rhyddhau, mae Gofal a Thrwsio yn parhau i gefnogi pobl hŷn gyda gwelliannau mwy hirdymor mewn cartrefi, sy'n cefnogi eu llesiant ac yn lleihau'r posibilrwydd o ail-dderbyn i'r ysbyty.<br>**Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol - Tai**<br>Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Llywodraeth Cymru'n cynnal 'Ymchwiliad i'r hawl i gael tai digonol' gyda'r bwriad o gyflwyno Bil yn 2023. Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi galw ar berchnogion tai hŷn sy'n byw mewn tai sydd mewn cyflwr gwael i gael yr hawl hon yn y gyfraith. Rwy'n deall y bydd Bil yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn.<br>Cyhoeddodd Gofal a Thrwsio yr adroddiad hwn "Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru". |
| Mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni drwy gyflawni mesurau i gynorthwyo aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw ac ynni presennol.<br>Lansiwyd yr ymgynghoriad ar yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd ar 22 Rhagfyr 2021. | | Hirdymor | Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 1 Ebrill ac rydym yn cwblhau'r ymateb i'r ymgynghoriad, y gwersi a ddysgwyd a'r datganiad polisi ar gyfer iteriad nesaf y rhaglen ar gyfer sêl bendith y Gweinidogion yn ystod yr wythnosau nesaf, ac ar ôl hynny byddwn yn parhau i ddatblygu manylion y rhaglen newydd a gaiff ei dwyn ymlaen yn ddiweddarach eleni.<br>Rydym wedi parhau i ddarparu cyngor Nyth ac ynni hefyd ochr yn ochr â'n cydweithwyr Dyfodol Ffyniannus sydd wedi darparu pecyn cymorth i aelwydydd. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Datgarboneiddio mwy o gartrefi drwy ôl-osod, darparu swyddi, hyfforddiant ac arloesi trwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyrff cynrychioliadol y sector | Hirdymor | Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) yn ddull tŷ cyfan, pragmatig o ddatgarboneiddio cartrefi presennol. Mae'n agored i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i osod amrywiaeth o fesurau datgarboneiddio cartrefi yn y stoc tai cymdeithasol presennol.<br><br>Mae ORP wedi darparu cyllid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac Awdurdodau Lleol gaffael cynhyrchion a gwasanaethau ar gyfer datgarboneiddio 7,000 o gartrefi cymdeithasol ar hyd a lled Cymru.<br><br>Bydd ORP yn cyfrannu at WHQS 2023 gyda'r amcan o ddatgarboneiddio 230,000 o gartrefi cymdeithasol Cymru. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio yn Cynllun Lesio Cymru erbyn hyn a byddant yn rhan o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru gyda pherchnogion preswyl.<br><br>Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio \| LLYW.CYMRU |
| **<u>Mannau agored ac adeiladau</u>**<br><br>**Byddwn yn:**<br>• Sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig yn ddiogel ac o blaid pobl hŷn<br>• Gwella argaeledd toiledau cyhoeddus<br>• Adfywio canol trefi | | | |
| Rydym yn dal ati i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol fel y gall swyddogion gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed ac yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer cyfyngiad cyflymder diofyn | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol | | Datganiad ysgrifenedig ar y cynnydd tuag at ddiwygio deddfwriaeth yn ymwneud â cherbydau sy'n rhwystro llwybrau troed a gyhoeddwyd Ionawr 2023:<br><br>Datganiad Ysgrifenedig: Argymhellion diwygiedig Tasglu Parcio ar y Palmant Cymru (18 Ionawr 2023) \| LLYW. CYMRU |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| cenedlaethol o 20 mya mewn ardaloedd preswyl | | | Ar 12 Gorffennaf, cymeradwyodd y Senedd y ddeddfwriaeth i newid y Terfyn Cyflymder Diofyn Cenedlaethol yng Nghymru ar ffyrdd cyfyngedig o 30 mya i 20 mya. Ar hyn o bryd mae awdurdodau priffyrdd yn paratoi ar gyfer y newidiadau angenrheidiol cyn i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig ddod i rym ym mis Medi 2023:<br>[Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi'r canllaw pennu eithriadau i'r terfynau cyflymder 20mya (9 Tachwedd 2022) \| LLYW. CYMRU] |
| Drwy'r rhaglen cymunedau o blaid pobl hŷn a'n cefnogaeth i grwpiau a fforymau pobl hŷn, byddwn ni'n annog pobl hŷn i leisio eu barn pan fydd awdurdodau lleol yn cynllunio gwasanaethau allweddol, fel toiledau cyhoeddus. | Awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, Cynghorau Tref a Chymuned, dinasyddion | | Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi strategaeth toiledau cyhoeddus, ond mae atebolrwydd dros weithredu yn parhau gydag awdurdodau lleol.<br>Dylai awdurdodau lleol adolygu eu strategaethau presennol a gwneud adroddiadau cynnydd ac (os oes angen) diwygio ac ailgyhoeddi eu strategaethau. Mae hwn yn ofyniad statudol. |
| Byddwn yn ail-lunio ac ail-lansio'r holl raglenni cyfalaf adfywio presennol o 2021 fel Cronfa Trawsnewid Trefi sengl er mwyn creu canol trefi sy'n darparu swyddi, cartrefi, hamdden a gwasanaethau, ond sydd hefyd yn edrych yn wych, yn teimlo'n ddiogel ac yn hawdd eu cyrraedd a byrlymus wrth gefnogi camau gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur hefyd. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, y trydydd sector a'r sector preifat | | Nodwyd y gofyniad am Gynlluniau Creu Lleoedd i gefnogi gweithgarwch adfywio yn y Fframwaith Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi a'i rannu gyda phartneriaid awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2022. Yr amserlen bresennol i awdurdodau lleol gyrchu rhaglen a chyllid Trawsnewid Trefi yw 2022-2025.<br>Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n pwysleisio ein hymrwymiad i rymuso cymunedau lleol i gael mwy o lais mewn cynlluniau adfywio lleol, ac mae cymorth Trawsnewid Trefi'n canolbwyntio'n helaeth ar gyfleoedd trawsnewidiol sy'n cael eu llunio drwy Gynllun Creu Lleoedd a ddatblygwyd yn lleol ar draws pob sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi Cynlluniau Creu Lleoedd ac yn |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | gweithio'n agos gyda Chomisiwn Dylunio Cymru wrth sicrhau bod prosesau cynllunio'n cael eu llywio gan Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru (sy'n cynnwys ymgysylltu â'r gymuned). Mae cyllid Trawsnewid Trefi ar gyfer datblygu 10 Cynllun Creu Lleoedd mewn trefi wedi'i ddyfarnu hyd yma yn 2022-23 ac mae awdurdodau lleol wrthi'n creu cynigion Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer mwy na 30 o aneddiadau pellach ledled Cymru, a swyddogion yn casglu gwybodaeth am fethodolegau ymgysylltu cymunedol a ddefnyddir.<br><br>Lansiwyd y Rhaglen Trawsnewid Trefi ym mis Ionawr 2020 ac mae egwyddorion creu lleoedd a phrif gynlluniau cadarn yn sail iddo. Mae'n annog trefi amlddefnydd fel llefydd i fyw, gweithio, ymweld ac aros. Mae'r rhaglen yn cynnwys prif gronfa gyfalaf £100m ynghyd â chronfa fenthyca a chymorth i awdurdodau lleol gyflawni cynlluniau creu lleoedd.<br><br>Trwy gyfres o grwpiau gorchwyl a gorffen a gynullwyd gan y Grŵp Gweithredu Canol Trefi Gweinidogol, datblygwyd "Datganiad Sefyllfa Canol Trefi". Mae’n ymateb i adroddiadau allweddol am adfywio canol trefi a gyhoeddwyd yn ystod 2021 hefyd. Mae'r datganiad sefyllfa’n nodi'r heriau allweddol sy'n wynebu canol trefi a chyfres o gamau traws-bolisi gyda'r nod o fynd i'r afael â'r heriau hynny. Mae'r datganiad sefyllfa wedi cael sêl bendith cabinet Llywodraeth Cymru.<br><br>Datganiad Sefyllfa i'w gyhoeddi ym mis Mai 2023 a sefydlu grwpiau i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu. |

**<u>Cludiant</u>**

**Byddwn yn:**

- Helpu pobl i gynllunio teithiau o ddrws i ddrws

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| • Gwella gwasanaethau bysiau<br>• Datblygu mwy o wasanaethau trafnidiaeth seiliedig ar alw | | | |
| Mae Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn cynnwys pedwar llwybr cyflwyno trawsbynciol:<br>• Y llwybr datgarboneiddio<br>• Y llwybr cydraddoldeb<br>• Y llwybr cynllunio teithiau integredig<br>• Y llwybr gwledig | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol | Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth.<br><br>Nod y strategaeth yw trawsnewid trafnidiaeth dros yr 20 mlynedd nesaf. | Rydym wedi sefydlu Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth i adolygu ein cynnydd cyffredinol ar Llwybr Newydd a byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr, y sector masnachol a'r trydydd sector, awdurdodau lleol, a grwpiau cydraddoldeb i gefnogi gwaith y Bwrdd.<br><br>Ar 9 Mawrth cyhoeddwyd **papur gwyn ar y Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru)**. Bydd ein cynigion yn cyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat - gan fynd i'r afael â thrwyddedu trawsffiniol a diwygio i wneud gwasanaethau'n fwy diogel, yn wyrddach, ac yn decach.<br><br>Mae Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (PHVs) yn chwarae rhan hanfodol: gan wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis mwy ymarferol drwy ddarparu cysylltiadau ar gyfer y filltir gyntaf a'r olaf o deithiau a symud pobl ar adegau pan nad yw gwasanaethau trafnidiaeth eraill ar waith neu mewn mannau lle nad ydynt ar gael.<br><br>O ystyried pwysigrwydd y sector, dylem ddisgwyl safonau cyson ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae llawer gormod o amrywiaeth o ran gwirio addasrwydd a gofynion hyfforddiant ar gyfer gyrwyr, safonau oedran cerbydau ac allyriadau, a'r gofynion i fod yn weithredwr.<br><br>Mae hyn yn arwain at wasanaeth anghyson ac mae'n annheg ar yrwyr a gweithredwyr sy'n wynebu cystadleuaeth gan yrwyr sydd wedi'u trwyddedu i safonau is mewn awdurdodau lleol cyfagos. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Rydym yn cydnabod bod angen codi'r gwastad hwnnw a bydd ein cynigion yn darparu gwasanaethau gwell, mwy diogel a chyson. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gyflwyno safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer tacsis trwyddedig, PHVs, gyrwyr a gweithredwyr, gwell pwerau gorfodi i awdurdodau lleol, a rhannu gwybodaeth yn well.<br><br>Gan fod y sector tacsis a cherbydau hurio preifat wedi moderneiddio'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r fframwaith deddfwriaethol wedi cadw i fyny â'r holl newid. Mae ein cynigion wedi'u seilio ar ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant a rhanddeiliaid allweddol ar y materion mwyaf dybryd sy'n wynebu'r sector, ond rydym yn cydnabod y bydd angen ail-ymweld â rhai materion wrth i'r diwydiant barhau i esblygu. |
| Rydym wedi neilltuo £2.5 miliwn ar gyfer diwygio'r rhwydwaith bysiau.<br><br>Rydym wrthi'n datblygu cynllun 5-mlynedd, *Bws Cymru*, sy'n amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer bysiau a sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio ei phwerau a'i liferi er mwyn helpu i wella gwasanaethau bws yng Nghymru.<br><br>Byddwn ni'n parhau i ariannu gwelliannau i'r seilwaith bysiau er mwyn sicrhau bod mwy o arosfannau a chyfnewidfeydd allweddol yn gwbl hygyrch i bawb yn y gymuned. Rydym yn bwriadu sefydlu trefniadau cryfach | Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, cynghorau cymuned a thref | .<br><br>Hirdymor – cynllun pum mlynedd ar waith | Fe wnaethom ni gyhoeddi ein Papur Gwyn yn nodi ein cynlluniau i reoleiddio'r diwydiant bysiau yn ystod y Pasg 2022. Diwygio deddfwriaethol yw asgwrn cefn strategaeth Bws Cymru ac rydym ni'n parhau ar y trywydd iawn o ran cyflwyno'r bil yn nhymor y llywodraeth hon. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| ar gyfer rhwydwaith bysiau TrawsCymru hefyd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell a chysylltiadau gwell â threnau a gwasanaethau bysiau allweddol eraill mewn canolfannau a chyfnewidfeydd pwysig. | | | |
| Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni pum mlynedd sy'n egluro sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth gymunedol. Mae'n rhan o Gynllun Bach y Trydydd Sector yn ein Strategaeth Trafnidiaeth Cymru newydd, Llwybr Newydd. | Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru/ Llywodraeth Cymru | Drwy wireddu canlyniadau'r cynllun cyflawni<br>Canol tymor i ddatblygu cynllun newydd | Rydym yn parhau i weithio gyda'r sector trafnidiaeth gymunedol. |

## Nod 3: Adeiladu a chadw galluoedd pobl eu hunain

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Cefnogi datblygiad cymunedau o blaid pobl hŷn | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau Cymuned a Thref, Comisiynydd Pobl | Hirdymor – diwedd 2024 | Roedd £1.1 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu rhwng awdurdodau lleol yn 2022-23 a chytunwyd ar hynny ar gyfer 2023-24.<br>Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r Gronfa Integreiddio |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | Hŷn, trydydd sector | | Ranbarthol er mwyn ymwreiddio ymarfer a datblygu gwasanaethau o blaid pobl hŷn. |
| Ariannu cynllun grant tair blynedd i adeiladu gallu a chynaliadwyedd sefydliadau gwirfoddol a chymunedol rheng flaen ar lawr gwlad sy'n dod â phobl at ei gilydd a'u helpu i feithrin cysylltiadau cymdeithasol | Llywodraeth Cymru | Tymor canolig - Mawrth 2024 | Fel rhan o waith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, sefydlwyd y grŵp Arweinyddiaeth Gwirfoddoli Traws-Sectoraidd i arwain ar gyflawni ffrwd waith "Gwirfoddoli" ein Hadroddiad Adfer Trydydd Sector. Bydd y grŵp yn gwneud y darn sylweddol hwn o waith yn ystod gweddill tymor y Senedd hon. Bydd yn arwain at greu agwedd "Cymru gyfan" at wirfoddoli sy'n adeiladu ar yr egni a'r momentwm a grëwyd gydol y pandemig. Nid polisi Llywodraeth Cymru fydd hwn, ond yn hytrach datganiad o egwyddor ar beth mae gwirfoddoli yn ei olygu i ni fel cenedl, gan gynnwys rôl polisi cyhoeddus o ran galluogi hyn. Bydd y gwaith hwn yn defnyddio 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan y bydd yn cael ei gyd-gynhyrchu â phob sector. Bydd pobl hŷn yn ganolog i'r weledigaeth hon a bydd llais pobl hŷn a'u grwpiau a'u rhwydweithiau cynrychioliadol yn rhan allweddol o'r broses.<br><br>Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol a'r bartneriaeth cyngor gwirfoddol sirol fonitro a gwerthuso'r defnydd o'r cyllid a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Gan ddefnyddio adborth o'r partneriaethau, bydd Llywodraeth Cymru'n monitro canlyniadau ac effaith a'r gwersi a ddysgwyd hefyd. |
| Ariannu rhaglen genedlaethol o Gredydau Amser | Llywodraeth Cymru | Tan 2026 | Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu Credydau Amser Tempo gyda thair blynedd o gyllid yn 2020. Mae'r arian grant presennol i TEMPO i redeg y rhaglen yn dod i ben ddiwedd y mis hwn ond rydym wedi cytuno'n awr i barhau i'w hariannu er mwyn darparu'r rhaglen am dair blynedd arall. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Cefnogi rhaglen gwirfoddolwyr ar draws safleoedd Cadw sy'n cynnwys amrywiaeth o oedrannau ond yn enwedig pobl sydd wedi ymddeol a phobl hŷn. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys hyfforddiant, digwyddiadau cymdeithasol a rhyngweithio ag aelodau'r cyhoedd. | Llywodraeth Cymru / Cadw | Rhaglen barhaus | Parhaus |
| Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo gwirfoddoli drwy barhau i fuddsoddi yn seilwaith presennol y Cyngor Gwirfoddol Sirol a thrwy ddulliau grant megis Grant Gwirfoddoli Cymru a Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy y Trydydd Sector. Hefyd drwy grantiau bach o hyd at £25,000 a nifer fach o fuddsoddiadau strategol er mwyn archwilio'r cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig ymhellach a'i gynnwys mewn rhaglen waith barhaus. | Llywodraeth Cymru / CGGC / Cynghorau Gwirfoddol Sirol | Hirdymor 2022-2025 | Mae Cyllid Cyfun o dros £4.5m wedi'i ymrwymo ar gyfer Grantiau Gwirfoddoli Cymru dros y tair blynedd ariannol nesaf (2022-25) |
| Byddwn ni'n cyflwyno model newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol, sy'n darparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cymorth i rieni, dysgu teuluol a mynediad cymunedol at gyfleusterau wedi'u creu o amgylch y diwrnod ysgol.<br><br>Byddwn ni'n annog awdurdodau lleol i weithio gyda chynghorau tref a | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, cynghorau tref a chymuned | Hirdymor | Fe wnaethom lansio grant cyfalaf o £15 miliwn ar gyfer cynlluniau peilot Canolfan Dysgu Cymunedol ledled Cymru. Mae 21 o geisiadau wedi cael cefnogaeth, gan gynnwys prosiectau sy'n galluogi defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgol a chydleoli gwasanaethau.<br><br>Mae ein Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol wedi darparu £41 miliwn a mwy ers 2015 er mwyn helpu cymunedau ym mhob cwr o Gymru i brynu, datblygu a gwella adeiladau a mannau gwyrdd lleol hanfodol. Hefyd, rydym wedi gwneud ymrwymiad |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| chymuned a sefydliadau'r sector cyhoeddus i sicrhau bod llefydd mewn adeiladau sydd eisoes wedi'u hariannu'n gyhoeddus neu sy'n cael cefnogaeth gyhoeddus, ar gael i'r gymuned eu defnyddio. | | | cadarn i gefnogi Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a datblygiadau dan arweiniad cymunedol drwy ddarparu fframwaith cymorth sy'n rhoi cyngor, arweiniad a chyllid. |
| Gan weithio'n agos â gweithredu'r 'Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd', byddwn ni'n annog pob bwrdd iechyd lleol ac awdurdodau lleol ledled Cymru i sefydlu, ymwreiddio a chynyddu arferion pontio'r cenedlaethau.<br><br>Byddwn yn gweithio hefyd gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant, awdurdodau lleol a grwpiau a fforymau pobl hŷn i fapio gweithgaredd pontio'r cenedlaethau ac archwilio sut i efelychu arferion da. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, byrddau iechyd lleol, trydydd sector, Prifysgol Bangor, grwpiau dinasyddion, Comisiynwyr. | Hirdymor | Yn ystod wythnos ryngwladol pontio'r cenedlaethau ym mis Ebrill 2022, arddangoswyd cyfres o 7 fideo a oedd yn arddangos gweithgarwch o bob cwr o Gymru. Llwyddodd y fideos i ddenu dros 1000 o wylwyr yn ystod yr wythnos ac maen nhw wedi ysbrydoli amryw o brosiectau a gweithgareddau. Mae angen gwneud rhagor o waith i gynnwys byrddau iechyd lleol.<br><br>Un enghraifft nodedig yw bod Caffi Trwsio Cymru wedi derbyn cefnogaeth gan y gronfa Economi Sylfaenol i sefydlu 10 caffi trwsio newydd mewn ardaloedd difreintiedig gydag o leiaf 2 wedi'u lleoli mewn ysgolion. Mae sefydlu'r caffis mewn ysgolion yn fwy heriol nag mewn lleoliad cymunedol, mae amserlen ddiwygiedig ar waith i adeiladu ar ddysgu a chyrraedd y targedau.<br><br>Wrth baratoi ar gyfer Wythnos Ryngwladol Pontio'r Cenedlaethau 2023 ym mis Ebrill, rydym yn gweithio gyda'r Swyddogion o Blaid Pobl Hŷn yr awdurdodau lleol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn i arddangos prosiectau sy'n bodoli'n barod ym mhob cwr o Gymru fel rhan o un ymgyrch gyfathrebu. Menter arall yw taflu golau pinc ar adeiladau cymunedol ledled Cymru i arddangos gweithgarwch pontio'r cenedlaethau. |
| Byddwn ni'n archwilio sut y gallwn ddefnyddio gwaith pontio'r | Llywodraeth Cymru | | Rydym wedi penodi arbenigwyr mewn gwyddor ymddygiad i weithio gyda ni a'n partneriaid i greu a threialu ymyriadau a |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| cenedlaethau i helpu pobl iau i gaffael neu wella eu sgiliau Cymraeg yn unol â'n polisi cenedlaethol ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd. | | | helpu teuluoedd lle mae'r naill riant a'r llall, neu'r ddau, yn gallu siarad Cymraeg, i drosglwyddo’r iaith i'w plant.<br>Rydym wedi cymryd rhan mewn gwaith allgymorth sylweddol ac yn symud ymlaen i'r broses o greu ymyriadau prawf erbyn hyn. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac mae'n adeiladu ar dystiolaeth a ddarparwyd gan waith dadansoddol a wnaed eisoes ar gyfer Prosiect 2050 gan Claremont Communications. |
| Byddwn ni'n sicrhau bod y Cynllun Cenedlaethol i roi diwedd ar gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yn cyd-fynd â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru fel y strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig ac yn mynd i'r afael â phob math o gam-drin. | Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, Comisiynydd Pobl Hŷn, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol | . | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae disgwyl i'r cynllun gweithredu gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023.<br>Bydd Adroddiad Crynodeb o'r Ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Mae'n ddarn o waith traws-lywodraethol sydd â phwyslais, nid yn unig ar fynd i'r afael â cham-drin ac esgeuluso pobl hŷn, ond ar greu'r amgylchiadau lle mae camdriniaeth ac esgeulustod pobl hŷn yn llai tebygol o ddigwydd.<br>Mae'n cyfeirio at, ac yn cyd-fynd â'r Strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2022 i 2026 |
| Byddwn ni'n gweithio gyda Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio er mwyn archwilio sut i annog pobl i ystyried y ffactorau seicogymdeithasol a all eu cynorthwyo i heneiddio'n dda. | Pob sector | Tymor canolig | Dim camau wedi'u cymryd yn 22/23 |
| Gweithio gyda phrosiect 'Age at Work' Busnes yn y Gymuned (BITC)<br>Annog a chefnogi busnesau i fod yn fwy cynhwysol o ran cadw, ailhyfforddi a recriwtio gweithwyr hŷn | BITC, cwmnïau bach, canolig a mawr yng Nghymru, | Tymor canolig | Mae Busnes yn y Gymuned yn cynnig gwasanaethau amrywiol sy'n annog busnesau i fod yn gynhwysol o ran oedran a chefnogi gweithwyr hŷn. Rhwng Mai 2022 a Chwefror 2023, mynychodd 94 o bobl sesiynau Adolygu Canol Gyrfa, mae 18 o fusnesau wedi cwblhau eu Hadolygiadau Busnes sy'n gynhwysol o ran oedran a 21 o |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth o effaith gweithlu sy'n heneiddio a'r angen am agenda sy'n gynhwysol o ran oedran ym myd llywodraeth, busnes a chymdeithas ehangach<br><br>Cefnogi unigolion hŷn (50+oed) i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i barhau i ennill bywoliaeth, aros mewn cysylltiad a meithrin sgiliau newydd. | Llywodraeth Cymru | Rhaglen wedi'i hariannu tan fis Ebrill 2024 | Becynnau Cymorth Cyflogwr cynhwysol oedran wedi'u dosbarthu.<br><br>Ymddangosodd rhaglen 'Age at Work' BITC yng nghyhoeddiad ENVISAGE Age Cymru ac yn nigwyddiad y Senedd ar 31 Ionawr 2023. Roedd yn adeiladu ar ymchwil flaenorol i "Canfyddiadau ac agweddau ynghylch gweithwyr hŷn - beth yw barn cyflogwyr Cymru". Roedd hyn yn dangos datgysylltiad ynglŷn â'r hyn mae cyflogwyr yn ei ddweud am weithwyr hŷn a pha gefnogaeth maen nhw'n ei chynnig. Teimlwyd nad yw Oedran yn cael yr un gydnabyddiaeth yn y gweithle â nodweddion gwarchodedig eraill.<br><br>Ers mis Ionawr 2023 mae BITC wedi gweithio gyda Busnes Cymru i geisio ymgysylltu â rhagor o fusnesau i newid canfyddiadau. Rydym yn gobeithio cysylltu â busnesau mwy ledled Cymru hefyd. |
| Gweithio gyda Gwasanaeth Arian a Phensiynau i gysoni ein gwaith â gweithredu eu Strategaeth DU ar gyfer Lles Ariannol | Gwasanaeth Arian a Phensiynau, Llywodraeth Cymru | Tymor canolig | Aros am ddiweddariad |
| Rhoi cyllid i bob awdurdod lleol yn 2021-22 i ddatblygu dull effeithiol o gysylltu â phobl hŷn<br><br>Byddwn ni'n gwella dulliau ymgysylltu â dinasyddion ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, | Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022 a pharhaus, yn amodol ar gadarnhau cyllideb | £1.1 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu rhwng awdurdodau lleol yn 2022-23 a'i gytuno ar gyfer 2023-24 er mwyn helpu i ymgysylltu â phobl hŷn.<br><br>Cyhoeddodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Siarter yn nodi ymrwymiadau allweddol ar gyfer cynnwys a chyfraniad ystyrlon gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr ym mis Chwefror 2023. Mae'r ymrwymiadau'n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu a |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | Byrddau Iechyd Lleol | | llais a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Byddwn yn gweithio gyda Cymru'n Gweithio a phartneriaid eraill i sicrhau bod gweithwyr hŷn yn cael eu hannog i feddwl yn rhagweithiol am eu cyfleoedd gyrfaol a'u hanghenion sgiliau gydol eu hoes. | Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, y sectorau preifat a statudol a gweithwyr | Parhaus | Trafodwyd cyfranogiad pobl hŷn (50+) yn y farchnad lafur yng nghyfarfod y Bwrdd Cyflogadwyedd a Sgiliau (mewnol i Lywodraeth Cymru) ar 8 Mawrth.<br><br>Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar rwystrau cadw a chyflwyno'r amodau i bobl hŷn ailymuno â'r farchnad waith.<br><br>Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o drafodaeth ehangach ar anweithgarwch economaidd yn awr lle bydd opsiynau'n cael eu hystyried ynghylch beth yn fwy y gall Llywodraeth Cymru ei wneud a'r camau nesaf. |
| Byddwn ni'n parhau â'n Rhaglen Brentisiaethau Pob Oed - yn 2019-20 roedd dros 4000 o bobl 50+ oed yn gwneud prentisiaeth ar lefel 2, 3 a 4. | Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, y sectorau preifat a statudol a gweithwyr | Parhaus | Ar ddechrau Wythnos Prentisiaethau Cymru 2022, cadarnhaodd Gweinidog yr Economi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 125,000 o brentisiaethau pob oed ledled Cymru yn ystod y tymor llywodraeth hwn – gyda buddsoddiad sylweddol o £366 miliwn i gyflwyno'r rhaglen dros y tair blynedd nesaf:<br><br>Wythnos Prentisiaethau Cymru 2022: Gweinidog yn ymrwymo £366 miliwn i ddarparu 125,000 o brentisiaethau pob oed yng Nghymru \| LLYW. CYMRU |
| Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o hawliau gweithwyr a chyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr a chyfeirio at ffynonellau cyngor a chymorth. | Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr | Parhaus | Fel y nodwyd uchod, mae Busnes yn y Gymuned yn ymwneud â busnesau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o hawliau gweithwyr hŷn a sicrhau bod busnesau'n cefnogi eu gweithlu 50 oed a throsodd. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i hyrwyddo egwyddorion gwaith teg a manteision gweithlu cyfartal ac amrywiol. Mae hyn yn cefnogi ein huchelgais ar gyfer cenedl Gwaith Teg lle mae pawb, gan gynnwys gweithwyr hŷn, yn cael eu cynnwys a lle nad oes neb yn cael eu dal yn ôl na'u gadael ar ôl.<br><br>Byddwn ni'n gweithio gyda chyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol i'w hannog i ddarparu gweithleoedd o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi'r nifer cynyddol o weithwyr a gofalwyr hŷn yn ein gweithlu. | Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr | Parhaus | Rydym yn parhau i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i ni er mwyn codi ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau'r gweithlu, ac i hyrwyddo gwaith teg a manteision gweithlu amrywiol, gan gynnwys pobl hŷn. Rydym yn cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â chyflogwyr ac undebau llafur. Mae'r cynnydd yn y maes hwn yn cynnwys:<br>○ Sefydlu fforymau Gwaith Teg mewn sectorau penodol fel manwerthu a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i gysylltu â chyflogwyr ac undebau llafur i gydweithio er mwyn gwella amodau a thelerau gwaith.<br>○ Datblygu Canllaw i Waith Teg er mwyn helpu cyflogwyr i ddeall beth yw gwaith teg a sut mae modd defnyddio hyn yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o weithluoedd cyfartal, cynhwysol ac amrywiol.<br>○ Gweithredu i hyrwyddo rôl ac aelodaeth Undebau Llafur fel ffordd o ddiogelu hawliau yn y gweithle. |
| Bydd ein Cynllun Cyflogadwyedd yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer gwneud Cymru'n economi uwch-dechnoleg â chyflogaeth lawn a chyflogau uchel. | Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, y sectorau preifat a statudol a gweithwyr | Hirdymor | Cafodd diweddariad o'r Cynllun Cyflogadwyedd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022:<br>[Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau: crynodeb [HTML] \| LLYW. CYMRU]<br>Y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yw:<br>• Pobl ifanc yn sylweddoli eu potensial.<br>• Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd.<br>• Hyrwyddo Gwaith Teg i bawb.<br>• Cynorthwyo pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor i weithio. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | • Meithrin dysg ar gyfer diwylliant bywyd. |
| Ein nod yw cefnogi darparu cyrsiau ymgysylltu cymdeithasol trwy glybiau a grwpiau dysgu hunangyfeiriedig a fydd yn helpu pobl i barhau i ddysgu mewn ffordd anffurfiol er budd eu hiechyd a'u lles. | Llywodraeth Cymru, y sector addysg a'r trydydd sector | Lefelau cyfranogiad mewn addysg oedolion. | Y diweddaraf gan Cadw: mae gennym grwpiau o wirfoddolwyr rydym yn darparu hyfforddiant ar eu cyfer, ac sy'n ychwanegu at y profiad i ymwelwyr ym Mhlas Mawr, trwy greu gwisgoedd/cwrdd â'r cartref a dawnsio Tuduraidd y maent yn hyfforddi ar ei gyfer bob wythnos ac yn creu adnoddau ar gyfer yn Basingwerk. tua 60 ar draws y ddau grŵp<br><br>Canfod y Gorffennol: Abaty Dinas Basing)<br><br>Gwirfoddolwyr Plas Mawr yn ennill Gwobr Marsh yr Amgueddfa Brydeinig ar lefel Cymru<br><br>Gwirfoddolwyr Plas Mawr yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr o fri |
| Helpu dinasyddion i fod yn hyderus yn ddigidol<br><br>Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru (Mawrth 2021) yn ei gwneud yn glir y byddwn ni'n rhoi'r ysgogiad i bobl, y cyfleoedd mynediad, y sgiliau digidol sylfaenol a'r hyder i ymwneud fwyfwy â'r byd digidol, yn seiliedig ar eu hanghenion. Isod mae sawl darn allweddol o waith a fydd yn cefnogi'r ymrwymiad hwn:<br><br>➢ Gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) i fapio gweithgareddau cynhwysiant | Llywodraeth Cymru a phob sector | Hirdymor | Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n darparu ein mesur blynyddol o ran cynnydd yn erbyn y dangosydd cenedlaethol. Dangosodd data Arolwg Cenedlaethol 2021-22 (Gorffennaf 2022) nad yw 7% o bobl 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru'n defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol (wedi'u heithrio'n ddigidol). Pobl hŷn yw'r grŵp sy'n parhau i fod fwyaf tebygol o gael ei eithrio'n ddigidol gyda 32% o bobl 75 oed a throsodd yng Nghymru all-lein. Hefyd, nid oes gan 22% o bobl sy'n byw yng Nghymru (16 oed a hŷn) y pump sgiliau digidol sylfaenol cydnabyddedig - gan gynyddu i 59% yn achos rhai 75 oed a hŷn.<br><br>1. Cwblhawyd cam cychwynnol y gwaith mapio gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ym mis Mai 2022. Ers hynny, mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ehangach a |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| digidol. Bydd y map ar gael i'r cyhoedd ac yn rhoi amlinelliad clir i ddinasyddion a sefydliadau o ran lle i droi am gymorth i fagu hyder digidol.<br>➢ Ymchwilio i safon byw ddigidol ofynnol i Gymru sy'n cynnwys llinell sylfaen gydnabyddedig ar gyfer yr hyn y mae'n ei olygu i fod wedi'ch cynnwys yn ddigidol.<br><br>Sicrhau bod ymyriadau priodol ar waith i helpu dinasyddion i ddatblygu'r hyder digidol i ymgysylltu'n ddigidol a gwybod lle i fynd am gymorth. Ar ben hynny, sicrhau bod staff rheng flaen a gwirfoddolwyr yn gallu cael hyfforddiant i ddod yn hyderus yn ddigidol. | | | MapDataCymru i greu map rhyngweithiol, a fydd ar ôl ei gyhoeddi yn caniatáu i'r rhai sy'n helpu pobl chwilio fesul cod post am lefydd sy'n cynnig cymorth digidol.<br><br>Cafodd y map ei gyhoeddi ar wefan llyw.cymru ym mis Chwefror 2023 gyda fersiwn bellach i ddod yn ddiweddarach yn y flwyddyn - Sut mae helpu rhywun rydych yn ei adnabod i fynd ar-lein \| LLYW.CYMRU<br><br>2. Cyhoeddwyd yr adroddiad 'Tuag at y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol' ym mis Chwefror 2023 ac mae ail gam y gwaith yn cychwyn ym mis Ebrill 2023 am chwe mis arall. Bydd yr ail gam hwn yn ystyried effaith peidio â chyrraedd y safon diffiniedig ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys pobl hŷn. Tuag at y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol - adroddiad terfynol \| LLYW. CYMRU<br><br>3. Mae contract Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a lles wedi'i ymestyn tan fis Mehefin 2025. Bydd hyn yn sicrhau bod ymyriadau parhaus a phriodol ar waith a bod gan sefydliadau raglen ganolog a sefydledig i fynd am gymorth.<br><br>Gydol y pandemig a'r argyfwng costau byw mae mater fforddiadwyedd ar gyfer sicrhau a chynnal cysylltedd wedi bod yn rhwystr cydnabyddedig i gynhwysiant digidol.<br><br>Drwy weithio'n agos ag arweinwyr seilwaith Llywodraeth Cymru a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) rydym yn archwilio ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol ar gyfer band eang a symudol. Mae tariff cymdeithasol yn opsiwn cost is ar gyfer naill ai cysylltedd sefydlog neu ffôn symudol sy'n |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | gymwys i bobl sy'n derbyn budd-daliadau - mae hyn yn cynnwys credyd pensiwn.<br><br>Wrth weithio ar draws sectorau, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau bod opsiynau ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau'n cael eu datblygu'n seiliedig ar anghenion y defnyddiwr ac yn ystyried y rhai sydd naill ai'n methu neu'n dewis peidio ag ymgysylltu'n ddigidol. Nid oes unrhyw ofyniad ffurfiol o hyd i sectorau (preifat er enghraifft) sicrhau bod gwasanaethau all-lein yn cael eu darparu, nac adnoddau chwaith. Fodd bynnag, gan weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) gallwn ymgorffori egwyddorion dylunio cynhwysiant digidol gan ddefnyddwyr.<br><br>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sydd wedi arwain y gwaith hwn drwy'r canllawiau Cael yr wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch mewn byd digidol: deall eich hawliau. |

## Nod 4: Mynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| **Dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol** | | | |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Bydd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a ddaeth i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 yn annog penderfyniadau gwell ac yn sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y pen draw. | Cyrff cyhoeddus | Parhaus | Yn haf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [offeryn tracio cynnydd] i gefnogi prosesau cynllunio. Cyhoeddwyd adolygiad o dystiolaeth ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniad ym mis Hydref 2021.<br><br>Mae'r Comisiynau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn bwriadu cynnal ymchwil yn y dyfodol i effaith y Ddyletswydd. Rydyn ni'n deall nad oes bwriad i wneud hyn tan ddiwedd 2022, gan roi digon o amser a lle i gyrff cyhoeddus perthnasol ymwreiddio'r Ddyletswydd. - *Mae'r adroddiad hwn wedi'i ohirio - diweddariad i ddilyn.* |
| **<u>Cynyddu'r nifer sy'n hawlio credyd pensiwn</u>**<br><br>**Byddwn yn:** Cydweithio gyda rhanddeiliaid i ddyfeisio'r Siarter a fydd wrth wraidd system fudd-daliadau Cymru, sy'n gweithio i bawb yng Nghymru. | | | |
| Rydym wedi ariannu sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda gweithwyr cymorth sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau ac rydym yn lansio tendr i wneud rhaglen hyfforddi arall.<br><br>O dan ein Rhaglen Pwyslais Manteisio i'r Eithaf ar Incwm, rydym wedi sefydlu cyfres o weithgorau. Mae Grŵp 3 yn ystyried sut i gynyddu'r nifer sy'n hawlio credyd pensiwn.<br><br>Byddwn yn archwilio sut y gall grwpiau a fforymau lleol a chenedlaethol 50+ helpu i frwydro yn erbyn stigma hawlio budd-daliadau. | Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref<br><br>. | Cyfradd sy'n hawlio credyd pensiwn.<br><br>Tymor canolig | Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Manteisio i'r Eithaf ar Incwm. Trwy ddulliau trawslywodraeth a chydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill, bydd y grŵp hwn yn sbarduno gwelliannau yn y nifer sy'n hawlio budd-daliadau a thaliadau lles.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2022, lansiwyd ein hymgyrch newydd ar gyfer cyfathrebu integredig cenedlaethol - 'Yma i helpu gyda chostau byw'. Nod yr ymgyrch yw tawelu meddyliau pobl Cymru bod cymorth a chefnogaeth ar gael i'r rhai sy'n wynebu trafferthion ariannol oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae'r brif alwad i weithredu'n cyfeirio pobl at Advicelink Cymru ac yn eu hannog i wirio a ydyn nhw'n gymwys i gael cymorth ariannol pellach. Prif neges galonogol yr ymgyrch yw bod Llywodraeth Cymru 'Yma i helpu gyda chostau byw.' |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Aeth yr ymgyrch yn fyw drwy bob sianel gan gynnwys teledu, radio, tu allan i'r cartref, y wasg, y cyfryngau digidol a chymdeithasol.<br><br>Mae'n adeiladu ar lwyddiant ein hymgyrchoedd cenedlaethol blaenorol *Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi*. Ymatebodd 8,000 a mwy o bobl i'r ymgyrch a chawsant gymorth gan wasanaeth Advicelink Cymru wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i hawlio gwerth dros £2.1m o incwm budd-daliadau ychwanegol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth o fewn ei gallu i roi arian ym mhocedi pobl ledled Cymru i ymdopi â'r cynnydd mewn costau byw. Rydym yn cyflawni canlyniadau gwych gyda'n prosiectau hawlio budd-daliadau lles, gan gynnwys helpu pobl hŷn i hawlio budd-daliadau fel Credyd Pensiwn a'r Lwfans Gweini.<br><br>Drwy Gronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru, mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd hefyd i gyrraedd pobl hŷn er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u hawliau o ran budd-daliadau lles. Hyd yma mae bron i 4,000 o bobl 65+ oed wedi cael help i hawlio incwm budd-dal lles, sy'n werth £12m ac er mwyn rheoli dyledion o £1.9m.<br><br>Mae pobl hŷn yn grŵp blaenoriaeth allweddol ar gyfer holl wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl. Pobl hŷn yw 33% o'r holl bobl sy'n manteisio ar y Gronfa.<br><br>Mae canlyniadau ein gwaith hawlio'n dangos bod gormod o bobl yng Nghymru nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau o hyd, a bod gwaith pellach i'w wneud i godi ymwybyddiaeth a darparu mynediad i'r cymorth sydd ei angen ar bobl i wneud hawliadau budd-dal lles. |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Partner Cyflawni | Cyfnod | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| **<u>Buddsoddi yn economi sylfaenol Cymru</u>**<br>**Byddwn yn:** Ailfywiogi canol ein trefi (Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi'n lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt). | | | |
| Byddwn ni'n adeiladu ar ein dull Economi Sylfaenol ac yn sefydlu Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol gyda phwyslais penodol ar Ofal Cymdeithasol; Datgarboneiddio cartrefi a bysiau; Bwyd; a Chaffael Cyhoeddus.<br>Yn ogystal, bydd yr uned Economi Sylfaenol yn cyflawni rôl bontio er mwyn helpu adrannau Llywodraeth Cymru i ymwreiddio materion Economi Sylfaenol mewn strategaeth bolisi a chynllun cyflawni. Bydd ymwreiddio meddylfryd Economi Sylfaenol ledled Llywodraeth Cymru'n helpu i ddatblygu dulliau sy'n cynnig cyfleoedd gwell i bobl hŷn gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau hanfodol. | Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector cyhoeddus | | **Banc Cymunedol Cymru**<br>Ym mis Ionawr, fe wnaeth Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy (MBS), yr arweinydd cyflawni masnachol, roi'r gorau i ddatblygu Banc Cymunedol am y tro yn anffodus, oherwydd amgylchiadau economaidd presennol y DU a'r ansicrwydd ariannol parhaus.<br>Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y Banc Cymunedol yn fenter fasnachol ar ran MBS, a bod angen i'r weledigaeth a'r gweithrediad fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r Prif Weithredwr wedi cadarnhau bod MBS yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'w rhaglen waith i ddatblygu a darparu Banc Cymunedol o fewn tymor y Senedd hon. |